

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Talybont
ar nos Iau 9 Mai, 2019 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Alun Thomas

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2019 yn ddarostyngedig i ychwanegu Cyng. Dafydd Meurig i fod yn bresennol.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Yr hen A55 - problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. PCSO o swyddfa'r heddlu yn Fangor sydd wedi bod yn ymdrin â'r mater yn gadael ei swydd, felly bydd ei chydweithiwr yn monitro'r safle os yw amser yn caniatáu. Dylid ffonio 101 i roi gwybod am unrhyw gwynion pellach. Penderfynwyd gwneud ymholiadau os yw'n bosib i'r Cyngor fonitro'r safle ei hunain, gyda bocsys monitro neu drwy ddefnyddio plismon ffug.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y Clerc i holi unwaith eto am yr arwyddion 'sat nav'. Cafwyd ymateb bod ddylai'r arwyddion fod i fyny yn yr 2-3 wythnos nesaf.

Lôn Goed - y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Adroddwyd bod y ffos wedi ei agor o'r fynwent i lawr.

Airfields of Britain Conservation Trust - y plac coffa wedi ei osod. Y Cyng. Megan Tomos wedi cysylltu gyda Ysgol Llanllechid ynglŷn a gwneud gwaith paratoi gyda'r ysgolion cyn cael ymweliad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

Allt Ty'n Hendre - twll yn y wal, ar yr ochr dde ar y ffordd i lawr. Angen hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

Ffordd wrth Wern Bach – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi hefyd.

Diffibriliwr –angen holi'r gymuned am unrhyw syniad ble i'w leoli. Trafodwyd gwahodd Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn i'n cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.

Giât mochyn – adroddwyd bod angen adnewyddu'r giatiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd. Wedi cael ymateb nad oes bwriad adnewyddu'r giatiau os nad oes anifeiliaid i'w rhwystro. Y Cyng. Dafydd Jones am gysylltu gyda'r Swyddog.

Parc Main – llwybr o Llwyn Penddu at Bryn Eithin – y bont pren wedi rhoi ac yn y ffoes, felly y llwybr methu cael ei ddefnyddio. Archwiliad wedi ei wneud o'r lleoliad. Cais wedi ei roi yn ôl anghenion i dderbyn caniatad i adnewyddu'r bont ac i weithio oddi fewn y cwrs dŵr. Y gobaith ydi bydd yr anghenion ar bont yn cael eu rhoi ar restr waith cynnal a chadw'r Cyngor am eleni dan obeithio bydd yn cael ei weithredu cyn yr Hydref pan fydd gwaharddiadau yn dod i rym.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd wedi bod i wneud archwiliad ar y safle, ond ni darwyd ar draws unrhyw ddiffyg amlwg i'r draen. Bydd angen rhagor o archwiliad i'r draen hwn er mwyn dod o hyd i'r i'r llinell gywir.

Lon Ddŵr – tyllau mawr yn y ffordd sy'n arwain at Y Llechan, wedi cael eu llenwi gan Gyngor Gwynedd.

Llifogydd Tan Lôn – trigolion yn hynod siomedig yn y diffyg cyfathrebu gan Gyngor Gwynedd. Llifogydd oherwydd ffosydd yn y caeau cyfagos ddim digon tyfn a bod cerrig mawr ynddynt. Adroddwyd bod cerrig a mwd dal i fod wrth y gyffordd ac yn gorchuddio'r draeni. Y Cyng. Geraint Hughes am anfon lluniau o rhain at y Clerc, i'w anfon ymlaen at Gyngor Gwynedd.

Cae chwarae Tal y bont, Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor

Gwynedd –gwaith wedi ei wneud ar y safle, ond y Cyngor yn bryderus am ddyfnder y ffos (ddim digon) a hefyd bod ffos arall i'r ffynnon yn y cae heb gael ei agor o gwbl.

5. Penodi Archwilydd Mewnol

Y Cyngor yn hapus i benodi Cyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith archwilio. Y Clerc i wneud y trefniadau.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai	£25.00
J Johnson-torri gwair	£100.00

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – e-bost gan Jones Bros-diweddariad ar y Gwaith Galluogi – A55

Abergwyngregyn i Tai'r Meibion. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – e-bost gan Llywodraeth Cymru/Traffig Cymru – hysbysiad o waith ar yr A55 C12 Tal y bont i C11 Llys y Gwynt, dydd Gwener 10 Mai 2019 – Dydd Sadwrn 11 Mai 2019. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – e-bost gan Adran Addysg Cyngor Gwynedd- angen enwebiadau ar gyfer Panel Apêl Mynediad a Phanel Apêl Gwaharddiad Disgyblion. Yr aelodau i ymateb fel unigolion os oes ganddynt ddiddordeb.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl brosiectau'r Bartneriaeth.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/LB61B (*Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb*)

Tan y Garth Bach, Gerlan

Caniatad Adeilad Rhestredig i newid ffenestri tô gyda ffenestri tô math cadwraeth.

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C19/0329/21/LL

Bwthyn Carreg, 5 Tan y Lon, Talybont, Bangor

Estyniad cefn a newidiadau.

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

10. Materion Brys

Parcio Llyn Ogwen – parcio allan o bob rheswm, parcio ym mhob man ac yn creu trafferthion i gerbydau sy'n mynd heibio ac i gerddwyr. Y Clerc i drafod gyda'r Heddlu ac yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Amserlen bysiau Bangor i Llandudno – wedi cael ei fandaleiddio. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.